# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Nodiadau Polisi Diogelwch Tân

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

| Rhif Adran | 01 | Testun | Gorchymyn Diogelwch Tân |
|---|---|---|---|
| Rhif Nodyn | 01 | Teitl | Datganiad Polisi Gorfodaeth |
| Dyddiad Cyhoeddi | 07/06/10 | Awdurdodwyd | GM Mike Hough |
| Dyddiad Adolygiad Olaf | 11/09/12 | Dyddiad Adolygu Nesaf | 11/09/14 |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r polisi cyffredinol a'r egwyddorion y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn disgwyl eu dilyn. Mae'n rhoi canllawiau i swyddogion diogelwch tân, busnesau ac aelodau o'r cyhoedd, a'i fwriad yw nodi'n glir beth yw'r amcanion, safonau a'r gwerthoedd a ddefnyddir.

1.2 Nod GTAGC yw cynnig gwasanaeth o ansawdd cyson uchel i'r gymuned fasnachol/fusnes o ran y targedau diogelwch cymunedol lleol a materion diogelwch tân technegol/deddfwriaethol, yn unol â'r Concordat Gorfodaeth fel y'i cyhoeddwyd gan Uned Gwell Rheoleiddio'r Swyddfa Cabinet.

## 2. EGWYDDORION

2.1 Mae GTAGC yn cyflawni'r gwaith gorfodaeth diogelwch tân ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

2.2 Mae GTAGC yn credu mewn gorfodaeth gadarn ond teg ar y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn). O ganlyniad i hyn, fel sy'n gyffredin i Ddatganiad Polisi Gorfodaeth y Comisiwn Iechyd a Diogelwch, ein nod yw llwyddo i wneud hyn yn ôl egwyddorion cyfranoledd wrth weithredu'r gyfraith, a sicrhau cydymffurfiaeth; dull cyson; targedu camau gorfodaeth; eglurder ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn gweithredu a'r hyn y gall y sawl sy'n cael ei reoleiddio ei ddisgwyl; ac atebolrwydd dros ein gweithredoedd.

## 3. CYFRANOLEDD

Bydd GTAGC yn ceisio cadw cost cydymffurfio mor isel â phosibl i fusnesau drwy sicrhau y bydd unrhyw gamau a gymerir, neu gyngor a roddir, yn gymesur â'r risg. Cyn belled ag y mae'r gyfraith yn caniatáu, byddwn yn ystyried amgylchiadau'r achos ac agwedd y rhai sy'n gysylltiedig wrth ystyried y camau. Byddwn yn ofalus iawn ein bod yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau bychain fel, lle bo'n berthnasol, y gallant ateb y gofynion cyfreithiol heb gostau diangen.

## 4. CYSONDEB

Nid yw dull cyson yn golygu unffurfiaeth, ond mae'n golygu defnyddio dull tebyg mewn amgylchiadau tebyg er mwyn cyflawni amcanion tebyg. Bydd GTAGC, felly, yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd deg, gyfiawn a chyson. Mae disgwyl i swyddogion diogelwch tân arfer eu barn broffesiynol i ymdrin yn effeithiol â materion penodol, ond, lle bo modd, byddwn yn cadw at y safonau a'r canllawiau y cyfeirir atynt isod er mwyn hybu cysondeb. Lle bo'n briodol, bydd GTAGC yn cysylltu gydag awdurdodau a chyrff gorfodaeth eraill er mwyn cydweithio a nodi'r arfer orau.

## 5. SAFONAU

Bydd GTAGC yn cyflawni ei swyddogaethau gorfodaeth a chynghori mewn ffordd gyfiawn, ymarferol a chyson. Bydd GTAGC yn mabwysiadu ac yn cadw at bolisi a chanllaw a gyhoeddir gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth leol, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân a safonau Ewropeaidd a Chenedlaethol lle cânt eu derbyn a'u cyhoeddi. Nodir targedau cenedlaethol a lleol ar gyfer ansawdd cyflwyno gwasanaeth, a chânt eu hymgorffori yn ein gweithdrefnau.

## 6. BOD YN AGORED

Bydd GTAGC yn darparu gwybodaeth a chyngor mewn iaith glir ynglŷn â'r rheolau y mae'n eu defnyddio a bydd yn lledaenu hyn mor eang â phosibl. Bydd GTAGC yn agored ynglŷn â'r ffordd y mae'n gwneud ei waith, gan gynnwys unrhyw daliadau y mae'n eu codi, gan ymgynghori a busnesau, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, cwsmeriaid a chynrychiolwyr y gweithlu lle bo'n briodol. Bydd GTAGC yn trafod materion cyffredinol, methiannau neu broblemau cydymffurfio penodol gydag unrhyw un sy'n cael trafferth o fewn y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli GTAGC.

## 7. PAROD I HELPU

Cred GTAGC bod atal problem yn haws na'i datrys, a bod ei rôl felly yn golygu gweithio gyda busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint, er mwyn cynghori a chynorthwyo gyda chydymffurfio. Byddwn yn cynnig gwasanaeth cwrtais ac effeithlon, a bydd ein staff yn eu cyflwyno eu hunain wrth eu henwau. Byddwn yn cynnig mannau cyswllt a rhifau ffôn ar gyfer cysylltu pellach gyda nhw, a byddwn yn annog busnesau i ofyn am gyngor/gwybodaeth. Byddwn hefyd yn ymdrechu i gydlynu ein gwasanaethau'n effeithiol er mwyn cael cyn lleied â phosibl o orgyffwrdd ac oedi.

## 8. TEGWCH

Bydd GTAGC yn trin pawb yn deg; byddwn yn parchu preifatrwydd, parch ac yn rhoi sylw arbennig i'r rhai sydd ag anghenion arbennig.

## 9. EGLURDER

Bydd GTAGC yn ymdrechu i helpu'r rhai sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Gorchymyn (y Rhai a Chyfrifoldeb) i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn ddylen nhw ei ddisgwyl gan GTAGC. Byddwn yn gwahaniaethu rhwng gofynion statudol, a chyngor neu ganllawiau ynglŷn â'r hyn sy'n ddymunol, ond nid yn orfodol er mwyn ateb gofynion y ddeddf.

## 10. ATEBOLRWYDD

Mae GTAGC yn atebol i'r cyhoedd am ei weithredoedd. Golyga hyn bod yn rhaid i GTAGC gael polisïau a safonau y gellir ein barnu yn eu herbyn, a mecanwaith effeithiol a hawdd cael mynediad ati er mwyn ymdrin â sylwadau a thrin cwynion.

## 11. CWYNION

Mae gan GTAGC weithdrefn gwynion mewn lle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wneud cais amdani. Mewn achosion lle na ellir datrys anghydfod, eglurir beth yw'r hawl i gwyno neu i apelio, gan roi manylion y broses a'r amser a gymer. Ein nod yw datrys unrhyw broblem yn gyflym ac yn effeithiol a dysgu o'r canlyniadau.

## 12. TARGEDU

Bydd ein polisi ynglyn ag archwiliadau yn golygu rhoi sylw'n bennaf i'r rhai y mae eu heiddo/gweithle a gweithgareddau yn creu'r perygl mwyaf i fywydau. Byddwn yn cadw strategaeth fydd yn nodi ac yn asesu'r peryglon o fewn eiddo/gweithle a'r gymuned ac yn neilltuo adnoddau i gynnal archwiliadau yn unol â hynny. Lle mae angen camau gorfodaeth, byddwn yn nodi'r sawl sy'n gyfrifol am greu'r risg. Gall hwn fod yn berchennog, preswylydd, cyflogwr, rheolwr neu berson cyfrifol arall. Byddwn yn ceisio cael cydymffurfiaeth ac efallai y byddwn yn cymryd camau yn erbyn y rhai sydd yn bennaf gyfrifol am dorri'r rheolau.

## 13. GWEITHDREFNAU GORFODAETH

13.1 Bydd GTAGC yn ceisio cydymffurfiaeth â'r gyfraith drwy gynnig gwybodaeth a chyngor i'r sawl sy'n gyfrifol ar lafar, ac/neu yn ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynnwys eglurhad pam mae angen unrhyw waith penodol a chyfnod o amser i'w gwblhau. Bydd gofynion cyfreithiol wedi eu gwahaniaethu'n glir o'r arferion da neu'r cyngor diogelwch anstatudol. Efallai y byddwn yn ymdrin â hyn mewn dull ffurfiol neu, lle bo'n briodol, efallai y byddwn yn rhoi Rhybuddion Newidiadau, Gorfodaeth a Gwahardd. Gallwn gyhoeddi rhybuddion swyddogol, a gallwn erlyn hefyd. Cyn

cymryd camau gorfodaeth ffurfiol (oni bai bod angen gweithredu ar unwaith i leihau'r perygl i fywyd neu i atal tystiolaeth rhag cael ei dinistrio), bydd yr archwilwyr yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n gyfrifol drafod amgylchiadau'r achos gyda nhw, ac os oes modd, datrys eu gwahaniaethau.

13.2 Pan ystyrir bod angen gweithredu ar unwaith, rhoddir eglurhad pam bod angen gweithredu felly ar y pryd, ac fe gadarnheir hynny'n ysgrifenedig yn y rhan fwyaf o achosion o fewn 5 diwrnod gwaith, ac ym mhob achos o fewn 10 diwrnod gwaith.

13.3 Pan fyddwn ni o'r farn y gallai eiddo penodol, o ganlyniad i unrhyw newid yn y dyfodol i amgylchiadau'r eiddo neu i ddefnydd yr eiddo, arwain at gynnydd sylweddol yn y perygl i bobl sy'n defnyddio'r eiddo, efallai y byddwn yn rhoi Rhybudd Newidiadau i'r sawl sydd â chyfrifoldeb, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau cyn eu gwneud.

13.4 Lle mae hawl i apelio yn erbyn camau ffurfiol, bydd cyngor ynglŷn â'r mecanwaith apelio wedi ei nodi'n glir yn ysgrifenedig ac wedi ei roi gyda'r ddogfennaeth.

13.5 Bydd angen i bob staff sy'n gwneud penderfyniadau gorfodaeth ddilyn yr egwyddorion a'r canllawiau yn y 'Model Rheoli Gorfodaeth' a gyhoeddir gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch.

13.6 Efallai y bydd GTAGC, lle'r ystyrir bod angen hynny, yn rhoi sylw i'r mesurau ataliol ac amddiffynnol sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r Gorchymyn, a rhoi canllawiau ychwanegol i'r Sawl sy'n Gyfrifol ar ffurf Cynllun Gweithredu.

## 14. YMDRIN Â THORRI'R RHEOLAU

14.1 Pan fydd diffygion llai difrifol wedi eu darganfod yn ystod ymweliad ag eiddo/gweithle, rhoddir rhybudd ffurfiol yn nodi'r materion rheiny nad ydynt yn cydymffurfio â'r camau sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r methiannau.

14.2 I gychwyn, ymdrinnir ag eiddo sydd â diffygion mwy difrifol, yn y rhan fwyaf o achosion, fel yn 13.1 uchod. Lle mae'r sefyllfa yn parhau heb ei datrys ar ôl 28 diwrnod, efallai y bydd Rhybudd Gorfodaeth yn dilyn. Ond, os yw'r perygl o dân yn gymaint fel na ellir oedi'r orfodaeth, cymerir camau gorfodaeth ar unwaith.

14.3 Lle darganfyddir amodau peryglus, ac mae GTAGC o'r farn y byddai defnyddio'r eiddo/gweithle yn creu, neu y bydd yn creu, perygl tân mor ddifrifol fel y dylid gwahardd neu gyfyngu ar y defnydd o'r eiddo ar unwaith, bydd GTAGC yn cyhoeddi Rhybudd Gwahardd i atal neu gyfyngu ar ddefnyddio'r eiddo.

14.4 Mae methu â chydymffurfio â Rhybudd Newidiadau, Gwahardd neu Orfodaeth yn gyfystyr â throseddu, a gall arwain at erlyn y Sawl sy'n Gyfrifol.

14.5 Gellir tynnu Rhybudd Newidiadau, Gorfodaeth a Gwahardd yn ôl unrhyw adeg, ond dylid ystyried eu bod mewn grym hyd nes y cant eu tynnu nôl neu eu canslo gan y llys.

14.6 Pan fydd swîts diffoddwr tân ar gyfer arwyddion tiwb goleuo foltedd uchel wedi eu gosod, neu y bwriedir eu gosod, mewn eiddo neu ar eiddo y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo, os nad yw'r safle, lliw a'r marciau yn cydymffurfio â rheolau

presennol Sefydliad y Peirianwyr Trydanol, rhoddir Rhybudd i'r Sawl sy'n Gyfrifol, a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion rhesymol y bydd y Gwasanaeth yn eu gosod er mwyn sicrhau bod y swîts torri cyflenwad yn hawdd i'w adnabod, ac yn hygyrch i ddiffoddwyr tân.

## 15. RHYBUDD FFURFIOL AC ERLYN

15.1 Mae Rhybudd Ffurfiol ac erlyn yn ffyrdd pwysig o ddod â'r rhai sy'n gyfrifol am dorri'r gyfraith o flaen eu gwell. Lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio un o'r mesurau hyn yn ychwanegol, neu o ganlyniad, i roi Rhybudd Gorfodaeth neu Wahardd.

15.2 Mae Rhybuddiad Ffurfiol yn ddatganiad gan y Gwasanaeth sy'n cael ei dderbyn yn ysgrifenedig gan y Sawl sy'n Gyfrifol, i ddweud bod y Sawl sy'n Gyfrifol wedi cyflawni trosedd a bod posibilrwydd real o erlyniad yn sgil hynny. Defnyddir Rhybuddiad Ffurfiol pan fydd modd dod ag erlyniad yn unig. Fe'i cedwir ar ffeil am 3 blynedd ac os caiff y Sawl sy'n Gyfrifol ei erlyn eto am drosedd arall yn y cyfnod hwnnw, caiff ei gyflwyno i'r llys.

15.3 Gellir dwyn erlyniad yn dilyn ystyriaeth lawn o nifer o ffactorau sy'n deillio o'r tor cyfraith honedig. Bydd y rhain yn cynnwys:-

- Difrifoldeb y drosedd (pa mor ddifrifol â graddfa'r perygl posibl a gwirioneddol, a difrifoldeb unrhyw dor cyfraith)
- Hanes blaenorol (gan gynnwys perfformiad diogelwch y parti (y Sawl sy'n Gyfrifol) dan sylw)
- Parodrwydd y parti i gywiro'r sefyllfa ac atal yr un peth rhag digwydd eto.
- Eglurhad rhesymol dros y digwyddiad (tor cyfraith)
- Y tebygrwydd y bydd y sawl a gyhuddir yn gallu sefydlu amddiffyniad boddhaol
- Y budd tebygol i'r cyhoedd o ddwyn erlyniad llwyddiannus

## 16. COFRESTR GYHOEDDUS

Yn unol â 'Deddf Amgylchedd a Gwybodaeth Diogelwch 1988', mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth nodi manylion rhai rhybuddion a elwir yn 'rhybuddion perthnasol' ar gofrestr y mae gan y cyhoedd fynediad ati. Mae mwy o fanylion ar gael o wneud cais.

## 17. DIOGELU DATA

Bydd y Gwasanaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 sy'n rheoli'r defnydd o ddata personol a dderbynnir neu a geir a bydd yn parchu hawliau a rhyddid yr unigolion wrth brosesu eu manylion. Mae dull strategol GTAGC o ateb y gofynion cyfreithiol wedi ei amlinellu yn SAPPO Adran 1 – Rhif. 9 Diogelu Data (Manylion ar gael o wneud cais amdanynt)

## 18. RHYDDID GWYBODAETH

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae gan unigolion 'hawl mynediad cyffredinol at wybodaeth gan yr awdurdodau cyhoeddus wrth fynd ati i wneud eu

swyddogaethau yn amodol ar rai amodau ac eithriadau'. O dan Adran 19 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynhyrchu cynllun cyhoeddi sy'n nodi manylion y wybodaeth gaiff ei chyhoeddi neu sydd ar gael yn rheolaidd, sut mae'r wybodaeth ar gael (mewn copi caled ac ar-lein), a yw ar gael am ddim neu drwy dalu amdano. Mae manylion cynllun cyhoeddi GTAGC ar gael yn SAPPO Adran 1 – Rhif 11 Rhyddid Gwybodaeth.

## 19. ADDYSG A GWYBODAETH

Bydd addysgu, rhoi gwybodaeth a chynghori'r rhai sydd â chyfrifoldeb ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y ddeddf diogelwch tân yn ffurfio elfen sylfaenol o'n trefn orfodi. Bydd y Gwasanaeth yn cyflawni ei ofyniad o dan adran 6(2) o'r Gorchymyn i roi, ar gais, cyngor ynglŷn â diogelwch tân am ddim.

## 20. ADOLYGU POLISI

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd.